**Cyngor Cymuned Dolbenmaen**

**Cofnodion cyfarfod misol y Cyngor a gynhaliwyd ar y 6ed Gorffennaf, 2023.**

| | | |
|---|---|---|
| **1.** | **Presennol:** | John Jones (Cadeirydd), Enid Egginton, Clifford Williams (Garndolbenmaen), John Till, Megan Lloyd Williams (Golan), Huw Pritchard, Raymond Jones (Pentrefelin), Richard Williams, Gwilym Evans (Prenteg), Richard Parry (Prenteg), Cynghorydd June Jones (Cynghorydd Cyngor Gwynedd), Stephen Churchman (Cynghorydd Cyngor Gwynedd) |
| **2.** | **Ymddiheuriadau:** | Michael Jones (Garndolbenmaen), Sarah Jones (Pentrefelin), Jess Williams, Iddon Edwards, Gwenno Emlyn Huws (Penmorfa), Edward Evans (Bryncir) |
| **3.** | **Ddim yn bresennol:** | Neb |
| **4.** | **Datgan Buddiant:** | Neb |
| **5.** | **Siaradwr Gwadd – Geraint Evans, Swyddog Cynllunio (Polisi), Parc Cenedlaethol Eryri** | Croesawyd Geraint Evans, Swyddog Cynllunio (Polisi) o Barc Cenedlaethol Eryri i siarad ac egluro ychydig am y wahanol fathau o amodau maent yn ei ddefnyddio o fewn y Parc Cenedlaethol o dan Adran 106 o'r Ddeddf Cynllunio Tref a Gwlad (1990).<br><br>Roedd gan y cynghorwyr ddiddordeb penodol mewn gwybod sut oeddent yn penderfynu pa ganran yn llai na phris y farchnad agored oedd rhywun yn gallu gwerthu tŷ gydag amod 106 arno. Dangoswyd i'r cynghorwyr beth oedd y fformiwla oeddent yn ei ddefnyddio.<br><br>Hoffem ddiolch i Geraint am ddod atom ac am roi ei amser tu allan i oriau gwaith arferol. |
| **6.** | **Cywirdeb y Cyn-gofnodion** | Richard Williams yn cynnig a Clifford Williams yn eilio. |
| **7.** | **Materion yn Codi o'r Cyn-gofnodion** | <u>Mynydd Glas, Garndolbenmaen</u>: Adroddwyd nad oes trwydded na chais cynllunio a bod Cyfoeth Naturiol Cymru a Swyddogion Gorfodaeth y Parc Cenedlaethol yn ymwybodol ac yn ymchwilio i'r mater.<br><br><u>Arwydd ffordd ddim yn addas i loriau - Prenteg:</u> Adroddwyd bod yna ddau bolyn wedi cael ei osod ar yr ynys - ddim yn glir os yw'r rhain ar gyfer yr arwydd 20 milltir yr awr yntau arwydd ddim yn addas i loriau. Awgrymwyd mai ger Hafan fyddai'r lleoliad gorau i roi'r arwydd ddim yn addas i loriau. Clerc i gysylltu hefo'r Uned Draffig.<br><br><u>Parcio Bwlch y Moch</u>: Adroddwyd fod y BMC wedi gosod arwyddion bach ar ochr y ffordd yn dweud "dim parcio" ond mae'r broblem wedi symud i ochr arall y ffordd rŵan. |

| | | |
|---|---|---|
| **8.** | **Mynwentydd:** | Prenteg: Toriad wedi cael ei wneud wythnos diwethaf.<br><br>Bethel: Toriad wedi ei wneud ar yr 8fed o Fehefin. Clerc i ofyn i'r gwair gael ei dorri yn fyrrach. |
| **9.** | **Llwybrau Cyhoeddus:** | Adroddwyd nad oedd llwybrau yng Ngarndolbenmaen wedi cael eu torri. Clerc i gysylltu hefo'r contractwr.<br><br>Clerc i gysylltu hefo Dewi Owen, Uwch Swyddog Hawliau Tramwy parthed y canlynol:<br><br>- Gwaith atgyweirio llwybr 105 heb ei gwblhau<br>- Arwydd Pont Faen heb gael ei ail-osod (Llwybr 131)<br>- Arwydd ger Nant Heddwch ddim yn glir (Llwybr 5)<br>- Arwydd wedi mynd ar goll ger Bron y Foel (Llwybr 129/130)<br>- Giât Cwm Bach i Bant Ifan angen ei atgyweirio - dim sbring arno felly mae'r giât yn cael ei adael yn agored (Llwybr 174/44)<br><br>Linc i Map Gwynedd: Mapiau \| Cyngor Gwynedd (llyw.cymru)<br><br>- Cliciwch ar y linc<br>- Ewch i Haenau a dewisiwch Hawliau Tramwy a Ffyrdd Cyhoeddus<br>- Rhowch dic yn y blwch llwybr troed / llwybr marchog ayb.<br>- Defnyddwich y botwm "Zoom in" wedyn i weld llwybrau'r ardal<br>- Os gliciwch chi'r llinell doredig biws, fe ddaw rhif y llwybr i fyny. |
| **10.** | **Adroddiad Pentrefi** | Prenteg: Adroddwyd pryder fod tân wedi cychwyn ar y cledrau ar y rheilffordd rhwng Porthmadog a Beddgelert pan oedd yr WHR yn rhedeg Trên Treftadaeth ar y llinell. Clerc i gysylltu hefo WHR.<br><br>Adroddwyd fod trigolion lleol sydd yn rhannu'r un cod post a Pharc Gwyliau Aberdunant yn cael ymwelwyr i'r parc gwyliau yn cnocio ar eu drysau yn hwyr yn y nos ac oriau mân y bore - noder mai'r teclynnau llywio lloeren sydd ar fai - fod ymwelwyr yn defnyddio'r rheiny yn hytrach na edrych ar fap ac ar arwyddion.<br><br>Nodwyd fod yna ddigon o arwyddion ar gyfer Parc Gwyliau Aberdunant ond efallai eu bod yn cael eu methu gan fod y ffordd sydd yn arwain allan o Brenteg i gyfeiriad Aberdunant yn 60mya. Awgrymwyd petai'r cyfyngiad cyflymder yn cael ei ostwng i 40mya, byddai yna lai o siawns o'r arwydd yn cael ei fethu. Nodwyd nad oes unlle cyfagos chwaith i geir droi rownd yn saff. Clerc i gysylltu hefo'r Uned Draffig. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Pentrefelin: Angen chwynladdwr o amgylch Stad Bryn Tyddyn. Idris wedi cychwyn gwneud arwydd Eglwys Ynys Cynhaearn.<br><br>Garndolbenmaen: Dim i'w adrodd<br><br>Penmorfa: Dim i'w adrodd<br><br>Bryncir: Loriau yn troi yn Stesion Bryncir ac yn trio mynd fyny am Lecheiddior - angen arwydd ddim yn addas i loriau.<br><br>Golan: Adroddwyd bod yr arosfa bws ger Clenennau wedi ei lanhau ond mae'r sedd yno angen sylw brys. Mae hi wedi rhydu o un pen i'r llall ac nid yw'n addas i unrhyw un eistedd arni.<br><br>Mae hefyd angen tocio coed o amgylch y ddau arwydd arosfa bysiau ar y naill ochr i'r ffordd y tu allan i'r Ganolfan Gymdeithasol yng Ngolan. |
| **11.** | **Cyfrifon 2022 - 2023** | Cyflwynwyd copi o'r cyfrifon i'r Cynghorwyr.<br><br>Cyflwynwyd hefyd gopi o'r eglurhad am y prif wahaniaethau yn y derbyniadau/gwariant rhwng 2021/22 a 2022/23.<br><br>Derbyniwyd y cyfrifon gan y Cynghorwyr. Cynigwyd yn gywir gan Clifford Williams a Richard Williams yn eilio.<br><br>Arwyddwyd y ffurflen flynyddol gan John Jones y Cadeirydd ac Eleri Davies, y Swyddog Cyllid priodol. |
| **12.** | **Gohebiaeth** | - Cyngor Gwynedd - Cau'r ffordd o Gapel Pennant i'r De Orllewin heibio Cyfyng i Lodge, Cwm Pennant – 13/07/2023<br>- Cyngor Gwynedd – Cau'r Ffordd o Hen Efail i'r Gogledd Ddwyrain i Gefn Coch Isaf, Cwm Ystradllyn – 18/07/2023<br>- Cyngor Gwynedd – Cau'r ffordd i'r Gogledd i Gwm heibio Mynachdy Gwyn a Ffridd Clynnog Fawr – 18/08/2023 |
| | **Gohebiaeth Ychwanegol** | a Unllais Cymru – Bwletin Newyddion<br>b Eisteddfod- Llythyr o ddiolch<br>c Unllais Cymru – Rheolau Sefydlog Diwygiedig<br>ch Llythyr diolch Mair Parry<br>d Llythyr diolch Liz Watkin |
| **13.** | **Cynllunio** | Rhestrau 29/5, 5/6, 12/6, 19/6. 26/6<br><br>Ceisiadau Cynllunio: Dim Ceisiadau |
| **14** | **Materion Ariannol** | |

| | | |
|---|---|---|
| | | Ceisiadau am arian: Dim<br><br>Monitro'r gyllideb : Dim gorwariant<br><br>Biliau i'w talu<br><br>Cyflog Clerc = £282.35<br>Ffôn = £ 15.00<br>Cyfrifiadur = £ 20.00<br>HMRC = £ 70.40<br>HSBC costau = £ 8.00<br>Veolia = £ 23.60<br>M:art Argraffydd = £460.80<br>Lili Wen = £ 40.00<br>Idris (Mai) = £470.00<br>Dylan (Mai) = £258.00<br><br>Ychwanegwyd:<br><br>Waterworks = £240.00<br>Cynllunio = £25.00<br><br>Derbyniadau:<br><br>Llog = £56.63<br><br>Balansau Cyfrifon Banc: Cadw. £16,966.03<br>Cyfredol. £18,915.39 |
| **15.** | **Dewis Gohebiaeth i fynd i'r wasg/wefan** | - Eisteddfod<br>- Amod 106 Deddf Cynllunio Tref a Gwlad<br>- Arosfa bws Golan<br>- Tân ar y cledrau |